# Eich cwestiynau wedi'u hateb: ein Hwb Grantiau newydd

## 1. Pam ydych chi'n cyflwyno system newydd?

Rydym yn cyflwyno'r Hwb Grantiau newydd i wneud y broses grantiau'n gyflymach, yn gliriach ac yn haws i'w rheoli. Mae wedi'i ddylunio i wella'ch profiad wrth wneud cais am gyllid a chwblhau gofynion monitro.

Mae'r newid hwn hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i dderbyn risg ac i fod yn realistig ynghylch yr hyn a ofynnwn gan ymgeiswyr. Rydym yn gweithio gydag IVAR (Institute for Voluntary Action Research) i ddatblygu Datganiad Risg clir i sicrhau bod ein dull asesu'n deg, yn dryloyw ac yn gyfartal.

## 2. Beth sy'n newid?

Rydym yn lansio Hwb Grantiau ar-lein newydd i wneud reoli a gwneud cais am grantiau gyda Sefydliad Cymunedol Cymru yn symlach ac yn fwy effeithlon.

Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad o dan egwyddorion **Grantio Agored ac Ymddiriedus IVAR**, gan barchu amser ymgeiswyr ac egluro ein blaenoriaethau a'n gofynion ariannu.

## 3. Beth allaf ei wneud yn yr Hwb Grantiau newydd?

Trwy'r Hwb Grantiau newydd, byddwch yn gallu:

- Cael mynediad at eich holl geisiadau grant gweithredol
- Olrhain cynnydd ceisiadau rydych wedi'u dechrau
- Diweddaru gwybodaeth eich sefydliad unrhyw bryd
- Derbyn grant a gymeradwywyd ar-lein
- Gweld a chwblhau gofynion monitro ar gyfer ceisiadau gweithredol

Rydym yn symleiddio'r ffurflenni ac yn gofyn am wybodaeth berthnasol yn unig, gan ofyn am ddogfennau ategol dim ond pan fo angen.

Mae gwirfoddolwyr yn ein helpu i brofi'r system newydd i sicrhau ei bod yn eglur, yn hawdd ei defnyddio ac yn addas.

4. **Pryd fydd yr Hwb Grantiau newydd ar gael?**

Rydym yn bwriadu lansio'r Hwb Grantiau newydd yn **Ebrill 2026**, ar ôl cyfnod profi rhwng **chanol Ionawr a dechrau Ebrill 2026**. Nodwch, gall y dyddiadau hyn newid wrth i ni brofi'r Hwb.

Rydym yn ymrwymedig i gyhoeddi ac i gadw at amserlenni clir, a byddwn yn diweddaru ymgeiswyr os bydd unrhyw newidiadau.

5. **A fyddaf yn gallu gwneud cais am gyllid yn ystod y cyfnod hwn?**

Bydd y mwyafrif o'n rhaglenni grantiau ar gau dros dro rhwng chanol Ionawr ac Ebrill 2026. Unwaith y bydd yr Hwb Grantiau newydd ar waith, bydd ceisiadau'n ailagor. Bydd manylion penodol pob cronfa ar gael ar: [www.communityfoundationwales.org.uk/grants](www.communityfoundationwales.org.uk/grants). Mae'r cau dros dro hwn yn ein galluogi i sicrhau trosglwyddiad llyfn a cynnig hyblyg.

6. **A fydd y system newydd yn gofyn am fwy o wybodaeth neu'n cymryd mwy o amser?**

Na fydd, mae'r system newydd wedi'i chynllunio i wneud pethau'n haws, nid yn fwy cymhleth. Byddwch yn ateb yr un math o gwestiynau ag o'r blaen, ond mewn proses fwy llyfn, gliriach ac fwy hygyrch.

7. **Pa gronfeydd fydd ar agor yn ystod y cyfnod profi, a pham dim ond y rhain?**

Yn ystod y cyfnod profi, bydd Cronfa Cymru a Chronfa Sefydliad Teulu Ashley ar agor. Mae gan Gronfa Cymru feini prawf eang ac mae'n agored i sefydliadau ar draws Cymru gyfan, ac mae Cronfa Teulu Ashley yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan y sefydliad.

Oherwydd yr amrywiaeth o geisiadau a gaiff ei denu, mae'n cynnig cyfle delfrydol i brofi'r Hwb Grantiau cyn ei lansio'n llawn ar draws ein holl gronfeydd.

8. **Beth sy'n digwydd i fy nata cyfredol neu geisiadau blaenorol?**

Bydd y tîm grantiau'n sicrhau bod yr holl geisiadau gweithredol yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i'r system newydd. Byddwch yn gallu gweld eich ceisiadau gweithredol unwaith y bydd yr Hwb Grantiau wedi'i lansio.

Rydym yn ymrwymedig i fod yn agored am ein penderfyniadau: rhannu adborth yn fwy tryloyw, cyhoeddi cyfraddau llwyddiant a chynnig cymorth ychwanegol i ymgeiswyr lle bo angen.

*Nodwch, yn unol â GDPR, Caiff ceisiadau a wrthodwyd eu dileu 12 mis ar ôl y dyddiad gwrthod. Caiff ceisiadau a ddyfarnwyd eu dileu 7 mlynedd ar ôl eu cwblhau.*

9. **A oes angen i mi greu cyfrif newydd?**

Os oes gennych gronfa weithredol gyda ni, byddwch yn derbyn e-bost i gofrestru yn yr Hwb Grantiau newydd.

Os ydych yn ymgeisio am y tro cyntaf neu heb gronfa weithredol, bydd angen i chi gofrestru pan fyddwch yn barod i wneud cais.

10. **A fydd dyddiadau agor/cau yn newid unwaith y bydd yr Hwb Grantiau ar waith?**

Bydd rhai grantiau i unigolion a fyddai'n agor fel arfer rhwng Ionawr–Ebrill 2026 yn agor yn gynharach (diwedd Tachwedd 2025).

Unwaith y bydd yr Hwb ar waith ar draws yr holl gronfeydd, bydd amserlenni arferol yn dychwelyd (yn amodol ar unrhyw newidiadau).

11. **A fydd yr Hwb Grantiau newydd yn effeithio ar sut neu pryd y caiff penderfyniadau eu gwneud?**

Na fydd, ni fydd yr Hwb Grantiau yn newid sut neu pryd y caiff penderfyniadau eu gwneud. Rydym yn anelu at gyfathrebu canlyniadau o fewn dau fis i ddyddiad cau'r gronfa.

Yn eich cyfrif byddwch yn gallu gweld statws eich cais, gan gynnwys:

- pryd y derbyniwyd
- pryd mae'n cael ei asesu
- pryd mae'n aros am benderfyniad panel

**12. A fydd y system newydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg?**

Bydd yr Hwb Grantiau yn ddwyieithog, gan eich galluogi i ddefnyddio'ch iaith ddewisol drwy gydol y broses.

**13. Mae gen i adroddiad monitro yn ddyledus ddechrau'r flwyddyn nesaf, beth ddylwn i ei wneud?**

Os yw eich adroddiad yn ddyledus rhwng Ionawr ac Ebrill 2026, byddwn yn cysylltu i weld os gallwch ei gyflwyno ychydig yn gynharach. Os nad yw hynny'n bosibl, dim problem – rhowch wybod i ni a byddwn yn eich cefnogi i ddod o hyd i'r opsiwn gorau.

**14. Sut byddaf yn dysgu defnyddio'r system newydd?**

Byddwn yn darparu sesiynau hyfforddi a deunyddiau canllaw i helpu pob ymgeisydd i ddod yn gyfarwydd â'r Hwb newydd. Bydd manylion ar gael wrth inni agosáu at y lansiad.

**15. Pwy allaf ei gysylltu am gymorth neu gwestiynau?**

Bydd tîm grantiau Sefydliad Cymunedol Cymru ar gael drwy'r cyfnod hwn i roi cymorth ac ateb cwestiynau. Cysylltwch â ni trwy e-bost neu dros y ffôn fel arfer: grants@communityfoundationwales.org.uk / 02920 379580

**16. Sut gallaf dderbyn newyddion a diweddariadau?**

Cadwch olwg ar ein gwefan a'n cylchlythyr grantiau am ddiweddariadau ar yr Hwb Grantiau newydd, gan gynnwys dyddiadau allweddol a chyfleoedd hyfforddi.

I sicrhau nad ydych yn colli gwybodaeth bwysig, rydym yn eich annog i:

- Ymuno â'n cylchlythyr trwy ein gwefan
- Dilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol am y newyddion diweddaraf

Bydd y sianeli hyn yn ein helpu i aros mewn cysylltiad â chi ac i feithrin perthynas grantio agored, tryloyw a chefnogol.